

UNED : TRAFOD GWARTHEG

CYFLWYNIAD

Mae angen trafod gwartheg yn ddiogel ac yn aml, mewn unrhyw system gynhyrchu eidion. Mae'r perygl i ddiogelwch a lles dynol ac anifail wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd

- y cynnydd yn nifer y gwartheg sydd gan y trafodwr,
- diffyg buddsoddiad mewn cyfleusterau trafod,
- y cynnydd yn nifer yr anifeiliaid orïog sydd ddim yn arfer cael eu trafod neu fabwysiadu systemau tarw eidion
- yr angen i drafod yr anifeiliaid er mwyn
 - eu pwyso, drensio ayb
 - prawf neu driniaeth filfeddygol,
 - bodloni olrheiniadwyedd drwy ddarllen y tag clust ac
 - anghenion hylendid wrth drimio cyn lladd

Gellir gwneud gwelliannau mewn effeithlonrwydd a diogelwch trafod drwy newid agweddau o'r cyfleusterau trafod a newid ymddygiad y trafodwr a'r anifail.

Y BROBLEM

Gall cyfleusterau trafod gwael a rheiny sydd â chynllun anaddas achosi:

- gostyngiad yn effeithlonrwydd trafod a chyfradd gwaith
- anafiadau i wartheg a thrafodwyr
- gostyngiad ym mherfformiad yr anifail yn dilyn straen
- ansawdd cig gwael (mae cig anifeiliaid dan straen yn aml yn cael ei israddio) a cholledion trimio carcass oherwydd cleisio

BE' SYDD EI ANGEN

- System ddiogel ar gyfer y trafodwr a all, os oes angen, gael ei weithredu gan un person.
- Trafod yr anifeiliaid mewn dull sy'n lles-gyfeillgar, effeithlon a diogel sy'n eu hannog i symud yn dawel, ac, os yn bosib, heb yr angen i'r trafodwr fod mewn cysylltiad yn uniongyrchol â'r anifeiliaid.

NODWEDDION CYNLLUNIO ALLWEDDOL

Lleoliad - dylid edrych ar y system drafod fel rhan annatod o'r system letya, a dylid ei gynllunio a'i leoli fel bod mynediad hawdd o lety ac iard y gwartheg, yn ogystal ag allanfa gyfleus i lwytho'r anifeiliaid i lorïau neu drelars

Golau - dylai fod digon o olau yn yr ardal, wedi ei oleuo gan olau naturiol neu artiffisial gan fod amodau tywyll yn rhwystr i'r anifeiliaid symud drwy'r system yn esmwyth ac yn rhwydd

Llawr - dylai'r llawr fod yn goncrit gwastad, heb unrhyw fylchau, tyllau neu ymylon pigog a bod yn wrth-lithr i wartheg a thrafodwyr, er mwyn osgoi damwain ac anaf

Waliau - mae waliau solet yn atal gwartheg rhag cael eu dychryn a'u drysu, ac ni ddylai gynnwys unrhyw bigynau nac onglau llym allai achosi niwed

Gatiau – dylai pob gât agor drwy 180° yn llawn ar gyfer bod yn hyblyg iawn ac osgoi niwed. Dylai gau'n dynn drwy gliciedau sy'n hawdd eu rhyddhau.

To - yn ddelfrydol, dylid gorchuddio gwasgfa ac unrhyw offer cofnodi neu offer pwyso electronig a allai fod yn sensitif, gyda tho. Er y byddai'n fwy cysurus i'r trafodwyr a'r gwartheg aros yn sych, gallai cydrannau eraill y system fod heb do.

Lloc casglu - rhaid cadw'r gwartheg mewn lloc sy'n ddigon mawr i ddal y nifer a maint yr anifeiliaid sy'n cael eu trafod ar unrhyw adeg. Llociau hirion, culion yw'r rhai gorau i symud gwartheg drwy'r system.

Lloc gorfodi - dylai'r system gynnwys lloc gorfodi crwn neu ar ongl gyda giât â chliciedau hunan-gloi, sy'n cyfeirio'r anifeiliaid i'r rhedfa

Rhedfa - rhedfa gyda dalennau, sy'n troi'n raddol, o led sy'n atal yr anifeiliaid rhag troi, gyda gatiau llithr bob hyn a hyn i atal yr anifeiliaid rhag troi'n ôl. Dylai rhedfa arwain y gwartheg i wasgfa lle byddan nhw'n cael eu trin

Gwasgfa - gwasgfa ddiogel lle gellir gweld yn glir yn y tu blaen i ddenu'r anifail, ac iau cryf all gael ei weithredu o du ôl y wasgfa, er mwyn osgoi sefyll o flaen yr anifail. Bydd hyn yn sicrhau bod yr anifeiliaid yn gallu cael eu trafod heb unrhyw berygl i'r trafodwr - mae ardal glir ddi-stoc o amgylch y tu blaen a'r ochrau yn hanfodol ar gyfer diogelwch y trafodwr.

Gatiau Didoli – rhaid medru gwahanu neu roi'r gwartheg mewn cwt heb straen wrth adael y wasgfa

Ramp Llwytho - mae ramp llwytho cadarn, diogel wedi ei ddylunio'n briodol yn sicrhau bod yr anifeiliaid yn medru cael eu llwytho i lori neu drelar heb straen na niwed

CASGLIADAU

- **Lleihewch y cyfle i droi'n ôl** - defnyddiwch lociau cul, hir yn hytrach na rhai sgwâr
- **Defnyddiwch allanfeydd clir** - osgowch droadau 90 gradd sy'n edrych fel pengaead a defnyddiwch gataiau mawr. Osgowch unrhyw rwystrau yn ymyl allanfa'r wasgfa.
- **Defnyddiwch loriau gwrth-lithr** - mae lloriau sydd wedi gwisgo yn gyfrifol am godymau marwol i drafodwyr a nifer o niweidiau i anifeiliaid.
- **Defnyddiwch chwilfrydedd yr anifail i'w harwain ymlaen** - mae gwartheg yn symud yn gyflymach drwy redfa droellog lle mae pobl a'r wasgfa wedi eu cuddio rhagddyn nhw.
- **Osgowch wrthdyniadau** - mae ochrau solet i lociau a rhedfeydd yn atal i'r gwartheg weld pobl ac anifeiliaid eraill, ac yn lleihau'r cynnwrf.
- **Dylai pobl o amgylch y wasgfa fod yn ddiogel** - dylid cael mynediad i ddwy ochr y wasgfa, dylid dylunio'r wasgfa er mwyn lleihau'r cyfleoedd o gael eich trapio a dylai'r ardal o'i amgylch fod heb wartheg.
- **Byddwch yn dawel** – mae gweiddi a defnyddio ffyn wedi dangos bod hyn yn arafu symudiad y gwartheg

FFYNONELLAU GWYBODAETH

EBLEX (2005) Beef Action for Profit 12 – Better Returns from Safe Cattle Handling

EBLEX (2009) EBLEX Beef BRP Manual 3 – Improving Cattle Handling for Better Returns

HSE (2006) Handling and Housing Cattle Agriculture Information Sheet No 35

Coleg Amaethyddol yr Alban (SAC) (2004) Modifying existing cattle handling systems to improve human safety Technical Note 564

Coleg Amaethyddol yr Alban (SAC) (2004) Recommendations for the design of new, safe and efficient cattle handling systems Technical Note 565

Gweithgaredd – 'Spot the problem' – EBLEX Beef BRP Manual 3 p10